Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Godre'r Berwyn

**Heol Ffrydan**
**Y Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Godre'r Berwyn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Godre'r Berwyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 566 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 474 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw’n berthnasol) | 15 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 53 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 21.6%) | 10.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 12.7%) | 8.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg yn y cartref | 68.4% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw’n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad hwn | 23/10/2023 |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Godre'r Berwyn yn gymuned ofalgar lle mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn dosbarthiadau, yn ystod amser hamdden ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn garedig tuag at oedolion a'i gilydd.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig arbennig, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau Cymraeg yn ystod eu hamser yn yr ysgol, gan ddod yn gyfathrebwyr hyderus. Maent hefyd yn datblygu medrau llythrennedd addas yn Saesneg, ond yn gyffredinol, mae gallu disgyblion i ysgrifennu darnau estynedig yn Saesneg yn cael ei rwystro gan ddiffyg cyfleoedd i wneud hynny. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu medrau rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd yn ddigon cydlynus i alluogi disgyblion i gymhwyso'r ystod gyfan o’r medrau hyn gan adeiladu ar ddysgu blaenorol dros amser. Yn yr achosion cryfaf, mae athrawon yn cyflwyno gwersi difyr gan ddefnyddio ysgogiadau diddorol fel clipiau fideo i ennyn brwdfrydedd y disgyblion. Yn ogystal, mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o ystod eang o weithgareddau ymarferol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu medrau. Lle nad yw'r addysgu’n gryf, nid yw athrawon yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion pob dysgwr wrth gynllunio, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r pennaeth yn fodel rôl cadarnhaol sy'n dangos gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu croesawgar i ddisgyblion. Mae effaith arweinwyr ar agweddau eraill o waith yr ysgol yn amrywiol. Nid ydynt wedi llwyddo hyd hyn i ddylanwadu’n ddigonol i sicrhau cysondeb yng ngwaith yr ysgol ar draws yr ystod oedran. Er enghraifft, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar gynllunio cynnydd medrau disgyblion ar draws yr ysgol, na gwerthuso a monitro lefelau presenoldeb. Yn ogystal, nid yw prosesau cynllunio gwella bob amser yn ddigon clir a phenodol i sicrhau cynnydd amserol. Yn ogystal, nid yw disgwyliadau a llinellau atebolrwydd yn ddigon clir.

Mae’r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

## Argymhellion

- A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel gan sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u dosrannu’n synhwyrol a bod strwythur atebolrwydd clir
- A2 Cryfhau effeithiolrwydd prosesau cynllunio ar gyfer gwella
- A3 Cydlynu a gwella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion
- A4 Cryfhau prosesau monitro a hybu presenoldeb er mwyn codi lefelau presenoldeb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. At ei gilydd, mae disgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chyflwyniadau athrawon yn Gymraeg o oedran ifanc ac yn gwrando ar gyfraniadau eu cyfoedion gydag aeddfedrwydd cynyddol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio yn Gymraeg yn naturiol o gwmpas yr adeilad ac wrth drafod yn eu gwersi, gyda llawer yn siarad gyda mesur da o gywirdeb. Maent yn cyd-drafod yn effeithiol â phartneriaid, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 4 gynnig syniadau ar gyfer pa offer sydd fwyaf addas i fesur maint gwrthrychau gwahanol. Yn eu tasgau trafod mewn grŵp, mae llawer o’r disgyblion hynaf yn gwerthuso’n feirniadol gan barchu barnau pobl wahanol er mwyn symud trafodaethau yn eu blaen. Maent yn defnyddio termau technegol yn gynyddol gywir ac yn defnyddio geirfa gyfoethog Gymraeg yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn trafod cyfraddau genedigaethau a marwolaethau yn eu gwersi Dyniaethau. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn cynnig atebion estynedig i gwestiynau athrawon. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio geiriau Saesneg mewn brawddegau Cymraeg, neu’n troi i siarad Saesneg yn llwyr gyda’u cyfoedion ar adegau mewn gwersi. Mae ychydig iawn o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn dewis peidio â gwrando’n astud ar atebion eu cyfoedion ac yn amharod i gyfrannu ar lafar neu’n cynnig atebion byr yn unig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen Cymraeg priodol o oedran ifanc. Yn ystod eu hamser ym mlynyddoedd is yr ysgol, maent yn datblygu i fod yn ddarllenwyr cynyddol hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwynhad o ddarllen. Maent yn darllen ystod o destunau yn briodol gyda lefel addas o gywirdeb yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn datblygu uwch fedrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio techneg lithr ddarllen yn briodol, er enghraifft wrth ddod i hyd i wybodaeth allweddol mewn ffynonellau hanes. Mae llawer yn rhesymu'n yn fedrus, er enghraifft wrth ystyried safbwyntiau cymeriadau gwahanol yn y ddrama ‘An Inspector Calls’ mewn gwersi Saesneg. Er bod y rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen ac yn darllen ar goedd yn eglur, lleiafrif sy’n amrywio mynegiant a goslef i ennyn diddordeb y gynulleidfa. Mae llawer yn darllen gydag ystyr pan mae testun yn cynnwys termau pwnc penodol ac anghyfarwydd.

Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau mudol man yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu toes yn annibynnol a thrwy ddefnyddio bwrdd tywod a

halen i ymarfer ysgrifennu geiriau allweddol. O ganlyniad, maent yn datblygu'r medrau corfforol angenrheidiol i gychwyn gwneud marciau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen ddarllenadwy, ac yn dechrau ysgrifennu'n annibynnol, er enghraifft wrth greu llyfr sy'n nodi rhannau'r corff. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu gyda llif addas ac yn cyflwyno gwaith yn drefnus. Mae llawer o'r disgyblion oedran uwchradd yn ysgrifennu'n estynedig mewn ffurfiau gwahanol ac at gynulleidfaoedd penodol yn Gymraeg. Mae llawer yn sillafu ac atalnodi'n gywir yn gyson. At ei gilydd, mae llawer yn defnyddio'r eirfa a chystrawennau disgwyliedig yn gywir ac ychydig ohonynt yn defnyddio geirfa amrywiol a mwyfwy cymhleth, gan drefnu eu gwaith yn effeithiol er mwyn dal sylw'r darllenydd. Mae llawer yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n fwriadus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn enwedig wrth ymateb i dasgau yn eu gwaith gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi elfennol wrth ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg yn eu gwaith ar draws y pynciau. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent wrth ddatblygu medrau ysgrifennu yn Saesneg. Mae hyn yn bennaf oherwydd anghysondebau yn y cyfleoedd a gânt i ysgrifennu darnau estynedig.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth addas o gysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, lleiafrif sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus yn rheolaidd, yn bennaf oherwydd nad ydynt yn cael cyfleoedd digon bwriadus. At ei gilydd, nid yw medrau rhifedd y disgyblion yn adeiladu'n systematig dros amser yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dechrau adnabod siapiau darnau o arian yn y dosbarth Derbyn. Rhwng Blynyddoedd 1 a 6, mae llawer yn cymhwyso'r medrau yn briodol mewn tasgau ymarferol, er enghraifft wrth fesur gwasg a chorun eu cyfoedion. Maent yn dechrau defnyddio mesuriadau safonol yn gynyddol gywir. Mae llawer o'r disgyblion oedran uwchradd yn cymhwyso medrau rhif yn briodol wrth gyfrifo amrediad, modd, canolrif a chymedr, er enghraifft wrth ddehongli data poblogaeth mewn gwersi daearyddiaeth. Maent yn defnyddio terminoleg briodol yn eu gwersi, er enghraifft wrth drafod tebygolrwydd. Maent yn ymdrin â rheolau onglau ac yn cyfrifo arwynebeddau siapiau 2D yn llwyddiannus. Maent yn dwyn i gof a defnyddio amrywiaeth o strategaethau pen er mwyn lluosi a rhannu. Mae llawer yn dechrau trin data yn gynyddol hyderus, er enghraifft wrth ddewis sut i gofnodi eu mesuriadau, gan greu tablau'n annibynnol a dechrau creu siartiau sy'n gynyddol heriol. Yn yr arferion gorau, yn enwedig mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion hŷn yn trin data yn fanwl gywir. Fodd bynnag, anghyson yw defnydd disgyblion o fedrau trin data ar draws yr ysgol, gydag ychydig ohonynt yn cofnodi gwybodaeth yn dechnegol anghywir.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio technoleg yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu lluniau hydrefol gyda phecyn celf. Mae llawer o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu medrau digidol yn addas, yn bennaf wrth ddefnyddio'r we i ddarganfod gwybodaeth a defnyddio meddalwedd gwahanol i gyflwyno gwybodaeth. Maent yn manteisio ar gyfleoedd achlysurol i ddatblygu medrau digidol eraill yn briodol. Er enghraifft, yn eu gwersi technoleg, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn codio peiriant i fesur pa mor bell maent yn cerdded. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu ystod gyfyngedig o fedrau digidol, ac nid ydynt yn datblygu eu medrau yn gydlynus dros amser.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol yn effeithiol. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i arbrofi yn rhydd gyda phaent. Mae disgyblion hŷn yn creu darnau o waith wedi eu hysbrydoli gan artistiaid enwog yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn llwyddiannus wrth greu darnau o gerddoriaeth a'u perfformio gan ddefnyddio ystod o offerynnau a lleisiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod digwyddiadau cyfoes, gan fynegi barn yn gynyddol aeddfed. Ar draws yr ystod oedran, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau mudol mawr yn rymus wrth symud a gosod pren a theiars i greu maes antur ac yna cydbwyso arno. Mae disgyblion hŷn yn datblygu ystod dda o fedrau corfforol trwy sesiynau iechyd a lles.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn gweithio’n annibynnol yn llwyddiannus ac yn cyfranogi’n llawn mewn gwersi. Mae eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn werthfawr ac mae nifer priodol yn manteisio ar y cyfle i arwain disgyblion iau yr ysgol, er enghraifft wrth gynnal gweithdai gwyddonol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae gan bron bob disgybl ymdeimlad cryf o falchder ac o berthyn i gymuned yr ysgol. Maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at gyfoedion, staff ac ymwelwyr ac mae llawer yn rhyngweithio’n hyderus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag unrhyw fwlio. Maent yn ymwybodol o bwy y gallent droi atynt os byddant yn poeni am unrhyw beth, neu os oes angen cymorth pellach. Maent yn gwerthfawrogi’r gynhaliaeth sensitif gan staff yn ardaloedd yr Hafan a’r Hwb i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweld budd  gweithgarwch corfforol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd byw bywyd iach. Mae ychydig yn manteisio ar y cyfleoedd allgyrsiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a lles, er enghraifft wrth fynychu’r clwb dringo. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos sensitifrwydd i bryderon byd-eang ac yn dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfoes, er enghraifft wrth drafod cynnwys rhaglen newyddion ddyddiol. Pan gânt y cyfle, maent yn trafod materion pwysig fel cymdeithas amlddiwylliannol a chydraddoldeb yn briodol.

Yn ystod y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i gyfrannu’n llawn ac yn aros ar dasg trwy gydol y wers. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu hyder a dycnwch, ac mae hwn yn eu helpu i ddysgu a meddwl yn annibynnol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain yn hyderus ynglŷn â beth, pa bryd a sut y maent yn dysgu.

Lle bo’n berthnasol, mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn yr ysgol a dangos cyfrifoldeb, er enghraifft trwy weithredu fel ‘bydi buarth’ neu swyddog ffordd. Mae disgyblion hŷn yr ysgol hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli i gefnogi’r disgyblion ieuengaf wrth ddarllen.

Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn dda iawn o amgylch yr ysgol adeg egwyl, cinio ac wrth symud ar hyd y coridorau. Mewn gwasanaethau, maent yn ymddwyn yn rhagorol ac yn cael budd o gyfleoedd i feddwl a myfyrio. Maent yn gwrando’n barchus ar athrawon ac yn ymateb yn synhwyrol i gyfarwyddiadau a gweithgareddau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i wersi ac yn frwdfrydig i ddechrau eu gwaith.

Mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn is na'r rhai cyn y pandemig. Yn ogystal, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn rhy isel o'i gymharu â'u cyfoedion.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn llysgenhadon teilwng i’r ysgol. Maent yn gwrtais ac yn siarad yn aeddfed, parchus ac yn hyderus. Maent yn cynorthwyo yn ystod y nosweithiau agored ac yn dangos dealltwriaeth o’u rôl allweddol mewn cynnal a gweithredu ethos cartrefol yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â disgyblion ac yn eu trin â pharch. Maent yn cyfarch disgyblion wrth y drws ac yn sicrhau eu bod yn setlo i weithio’n brydlon. Mae gan lawer o athrawon wybodaeth a dealltwriaeth bynciol dda ac maent yn fodelau iaith cadarn sy’n cyfrannu at ethos Cymreig arbennig yr ysgol. Yn eu gwersi, maent yn rhoi cyflwyniadau a chyfarwyddiadau clir i ddisgyblion ac yn rheoli’r gofod dysgu’n fwriadus. Trwy holi’n briodol, maent yn profi dealltwriaeth disgyblion yn gyson ac yn sicrhau eu bod yn gwrando’n astud.

Yn yr ychydig wersi ble mae’r addysgu’n fwyaf effeithiol, mae gan athrawon adnabyddiaeth gref o anghenion y disgyblion a disgwyliadau uchel ohonynt. Maent yn ysbrydoledig wrth addysgu ac yn darparu deunyddiau dysgu gwerthfawr megis clipiau fideo ac animeiddiadau sy’n tanio’r dychymyg. Trwy gynllunio crefftus, maent yn gosod nodau dysgu clir ac yn modelu disgwyliadau tasgau i ddisgyblion yn dda. Mae’r athrawon hyn yn ysgogi brwdfrydedd yn eu dosbarthiadau sydd, yn ei dro, yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Yn y blynyddoedd cynradd, mae athrawon yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu deniadol sy’n annog chwilfrydedd ac annibyniaeth.

Yn yr ychydig o achosion lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, mae diffyg rheolaeth ddosbarth yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd cyson. Nid yw’r tasgau wedi eu cynllunio i ymateb i anghenion yr holl ystod o ddisgyblion ac maent yn aml yn ailadroddus. Mae’r athrawon yn yr achosion hyn yn tueddu i gamamseru rhediad ac amseriad gwersi. Yn gyffredinol, mae disgwyliadau’r athrawon hyn yn rhy isel.

Ar y cyfan, mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar amserol a defnyddiol i ddisgyblion. Maent yn cylchu’r dosbarth yn effeithiol i gefnogi disgyblion â’u gwaith. Yn yr arferion gorau, mae ychydig o athrawon yn cywiro camgymeriadau yng ngwaith disgyblion ac yn cynnig arweiniad defnyddiol ar sut i’w wella. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol ac mae lleiafrif yr athrawon yn rhoi adborth sy’n aml yn arwynebol ac yn aneglur. Lle bo’n briodol, mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio’n dda i gefnogi disgyblion sydd ag ADY. Er hyn, mae ychydig iawn o’r disgyblion is eu gallu yn gwneud cynnydd cyfyngedig o’u mannau cychwyn o ganlyniad i ddiffyg cynllunio pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio amrywiaeth addas o dasgau sy'n adeiladu'n rhesymegol ar ei gilydd ac yn cynyddu mewn her. Yn gyffredinol, darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn yr oedran cynradd ac ychydig o'r pynciau uwchradd. Darperir cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso agweddau o'u medrau rhifedd tu allan i wersi mathemateg. Yn yr arferion gorau, mae athrawon y disgyblion ieuengaf yn bachu ar ddigwyddiadau amserol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus, er enghraifft drwy astudio cwpan pêl-droed y byd yn Qatar. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol ddefnyddio a chymhwyso eu medrau digidol sylfaenol ac mae ychydig iawn o athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol i dargedu ystod ehangach o fedrau digidol. Mae arweinwyr wedi dechrau cynnal awdit a mapio'r cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes strategaeth ysgol gyfan i sicrhau bod medrau ysgrifennu Saesneg, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion yn datblygu dros amser.

Mae gan arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Maent yn dechrau cydweithio ar draws yr ysgol a'r meysydd dysgu a phrofiad i ddylunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm cynhwysol a chytbwys sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Gall y disgyblion hŷn astudio ystod briodol o gyrsiau cyffredinol ac ymarferol, gan gynnwys peirianneg, trin gwallt a harddwch ac adeiladwaith. Er hyn, ychydig yn gyfyng yw'r dewis o bynciau galwedigaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion hŷn, sy'n cael cymorth ychwanegol, yn dilyn cyrsiau amgen addas.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau disgyblion trwy amrywiaeth o ymweliadau addysgol buddiol a chyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel ymweliadau â chapeli ac eglwysi lleol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu, yn enwedig i'r disgyblion ieuengaf, yn ddiddorol ac yn adeiladu'n effeithiol ar eu diddordebau.

Drwyddi draw, mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yn dda ac yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg. Er enghraifft, maent yn codi proffil y Gymraeg trwy croesawu pobl adnabyddus o fyd pêl-droed Cymru a'r ardal leol. Serch hynny, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth am amrywiaeth a chymunedau amlddiwylliannol Cymru a'r byd.

Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer iechyd a lles yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol. Trwy hyn, maent yn meithrin ymwybyddiaeth gynyddol am faterion allweddol megis byw bywyd iach, cadw'n ddiogel ar-lein ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Atgyfnerthir hyn gan wasanaethau a chyfnodau cofrestru boreol buddiol sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd o'u cwmpas ac am faterion cyfoes sy'n briodol i oed mewn awyrgylch hyfryd a chartrefol. Mae'r cynlluniau cwricwlwm ynghyd â'r gofal cryf gan staff yn sicrhau bod iechyd meddwl a lles disgyblion yn cael blaenoriaeth.

Mae'r staff yn cynnig darpariaeth fuddiol ar yrfaoedd a phrofiadau byd gwaith trwy gydweithio â phartneriaid allanol fel bod disgyblion hŷn yr ysgol yn gallu gwneud penderfyniadau addas am eu camau nesaf. Lle bo'n briodol, mae disgyblion ADY yn

dechrau elwa o'r cyfleoedd i fynychu profiad gwaith rheolaidd sy'n gweddu'n addas i'w hanghenion unigol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Godre'r Berwyn yn gymuned ofalgar sy'n hybu lles disgyblion yn effeithiol. Mae gan staff adnabyddiaeth dda o'r disgyblion ac mae ganddynt berthnasoedd gweithiol cadarnhaol â nhw. Mae holl gymuned yr ysgol yn arddel gwerthoedd parch a chydweithrediad ac, o ganlyniad, mae ymddygiad yn dda iawn ac mae agweddau cadarnhaol at ddysgu gan ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi lles emosiynol disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn ardaloedd yr Hafan, Hwb ac Encil yn darparu ymyraethau a chefnogaeth effeithiol i gefnogi emosiynau, lles ac ymddygiad disgyblion.

O fewn sesiynau cofrestru a gwasanaethau, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion drafod eu gwerthoedd eu hunain ac ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a rhoi cyfnod o fyfyrio ysbrydol. Yn ogystal, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at gymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach, er enghraifft trwy drefnu digwyddiadau codi arian at achosion da.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys Eisteddfodau, cynhyrchiad o'r sioe gerdd 'Grease' neu fynychu clybiau ffitrwydd, clwb dringo a chlwb yr Urdd.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae trefniadau pwrpasol ar waith ar gyfer cyflawni'r gofynion statudol o ran y Cynlluniau Datblygu Unigol. Mae gweithdrefnau adolygiadau blynyddol yn addas ac yn cynnwys mewnbwn gwerthfawr gan ddisgyblion, rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ystod o bartneriaid yn bwrpasol er mwyn cefnogi anghenion y disgyblion hyn.

Mae'r cydlynydd ADY (CADY) yn cefnogi disgyblion a'r staff sydd yn eu haddysgu yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddarparu hyfforddiant buddiol i staff ar ddulliau i gefnogi anghenion disgyblion. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn i rannu gwybodaeth am ddisgyblion newydd sydd ag ADY wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol. Mae staff yn olrhain cynnydd cyffredinol disgyblion sydd ag ADY yn addas. Fodd bynnag, nid yw staff yn gwneud defnydd digon pwrpasol o dargedau unigol y disgyblion wrth iddynt gynllunio, nac yn mesur eu cynnydd yn erbyn eu targedau unigol yn ddigon manwl.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ychydig o ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain trwy gynrychioli eu cyd-ddisgyblion yn y cyngor ysgol. Mae'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd ac yn trafod awgrymiadau eu cyfoedion am agweddau o fywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion oedran uwchradd yn cael cyfleoedd buddiol i rannu eu syniadau am gynnwys rhaglenni gwaith fel y ddarpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae'r ysgol yn cynnig arweiniad a chyngor gwerthfawr am ddewisiadau gyrfa disgyblion. Er enghraifft, gwahoddir aelodau o'r gymuned byd gwaith leol i ddod i gyflwyno a thrafod gyrfaoedd gyda disgyblion. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd

gwerthfawr i ddisgyblion fynychu profiad gwaith o fewn meysydd sy’n bodloni eu diddordebau.

Mae prosesau’r ysgol i ddiogelu disgyblion yn addas ac yn bodloni’r gofynion. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am sut i gadw’n ddiogel ar lefel addas i’w hoedran. Er enghraifft, mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn dysgu am gyffwrdd priodol ac amhriodol, ac mae disgyblion hŷn yn cael sesiynau buddiol am effaith andwyol trais yn y cartref. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o brosesau amddiffyn plant. Maent yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau eraill, lle bo’n briodol, er enghraifft i rannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd gwasanaethau plant. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a hybu lefelau presenoldeb uchel yn ddigon clir na grymus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae’r pennaeth yn uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol ac yn meddu ar weledigaeth sy’n blaenoriaethu lles disgyblion i greu cymdeithas lawen iach lle nad yw ‘neb rhy fawr, neb rhy fach’. Mae’n hybu ac yn arddel gwerthoedd yr ysgol, sef parch, caredigrwydd, gonestrwydd, tegwch, gofal ac urddas, mewn modd proffesiynol a didwyll.

Mae arweinwyr yn gweithio tuag at sicrhau gweithredu fel un ysgol bob oed sy’n cael ei adlewyrchu mewn trefniadau gweithredol o dair ffês sy’n cwmpasu amrediad o flynyddoedd ysgol. Serch hyn, mae gwireddu’r weledigaeth hon yn ei ddyddiau cynnar gan fod yr adran gynradd ac uwchradd yn gweithredu ar wahân yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad.

Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth addas o’u cyfrifoldebau ac maent yn diwallu eu dyletswyddau dydd i ddydd yn gydwybodol. Nid yw eu rolau a’u cyfrifoldebau bob amser yn glir i eraill ac nid yw’r cyfrifoldebau wedi eu rhannu’n gytbwys. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i fyfyrio am ansawdd eu gwaith a’u gallu i weithredu’n strategol. Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar feysydd fel cynnal agweddau disgyblion at eu dysgu, eu lles a pherthynas waith adeiladol â staff. Nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar bresenoldeb ysgol gyfan a’r safonau o fewn ychydig o feysydd dysgu a phrofiad.

Yn gyffredinol, mae’r drefn rheoli llinell ar waith ac mae cyfarfodydd cyson wedi’u trefnu a chyfleoedd rheolaidd i arweinwyr maes gwrdd â’u rheolwyr llinell. Mae arweinwyr yn anghyson wrth weithredu’r drefn hon. O ganlyniad, nid yw pob arweinydd maes dysgu a phrofiad yn cael cyfleoedd addas i drafod agweddau strategol yn ddigonol er mwyn sicrhau cysondeb mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Lle bo’n briodol, mae uwch arweinwyr yn adnabod ac yn herio staff sy’n tanberfformio gan roi cefnogaeth fwriadus i dargedu gwelliant. Mae targedau rheoli perfformiad yn cyd-fynd â blaenoriaethau’r ysgol a meysydd dysgu a phrofiad. Mae’r targedau yn aml yn eang iawn, yn anfesuradwy ac yn rhy weithredol ac felly mae monitro ac arfarnu cynnydd yn eu herbyn yn anodd. O ganlyniad, nid oes modd i fwyafrif yr arweinwyr ddefnyddio’r broses i sicrhau atebolrwydd.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn briodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu a threialu agweddau Cwricwlwm i Gymru, ymateb yn briodol i anghenion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a chreu diwylliant diogelu. Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio'n fwy bwriadus i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Er enghraifft, maent yn sicrhau cefnogaeth cymorthyddion dysgu, cefnogi teithiau addysgol a darparu gwersi offerynnol.

Mae gan yr ysgol galendr clir ar gyfer prosesau hunanwerthuso sy'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol am addysgu a dysgu o ystod briodol o ffynonellau fel craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi. Mae llawer o arweinwyr yn cyfrannu at y prosesau hyn ac yn dechrau defnyddio canfyddiadau hunanwerthuso i lunio blaenoriaethau a chamau ar gyfer gwelliant yn eu maes. Mae arweinwyr yn amrywio yn eu gallu i ddadansoddi'r dystiolaeth am safonau'r dysgu a'r addysgu a deall sut mae hyn yn bwydo'r broses cynllunio gwelliant. Yn gyffredinol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith yr addysgu ar fedrau a safonau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn dechrau casglu barn rhanddeiliaid, gan gynnwys disgyblion, ond ychydig o ddefnydd a wneir o'r canfyddiadau i gyfoethogi'r broses wella.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn fanwl ac yn cyfeirio at flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod yn briodol trwy'r prosesau hunanwerthuso. Ar y cyfan, mae'n cynnwys rhestr o gamau gweithredu a gweithgareddau disgwyliedig ond nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon miniog na meintiol. Mae anghysondeb yn y modd y mae arweinwyr ar lefelau gwahanol yn llunio blaenoriaethau a chamau perthnasol ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw eu cynlluniau'n canolbwyntio'n ddigon clir ar y prif faterion sydd angen mynd i'r afael â nhw. Yn aml, mae trefniadau monitro yn rhy benagored.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â'u rolau. Maent yn mynychu gweithgareddau amrywiol yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol a phwysigrwydd hyrwyddo yfed a bwyta'n iach. Maent yn cynnig lefel briodol o her i arweinwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r pennaeth a'r rheolwr busnes yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Mae gan yr ysgol warged sylweddol ar hyn o bryd. Mae gwariant grantiau yn gyffredinol yn briodol ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth i garfan fechan o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn monitro ac arfarnu effaith y defnydd o grantiau fel y grant datblygu disgyblion yn ddigon manwl.

Mae'r ysgol yn cynnwys yr holl staff mewn ystod briodol o weithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol. Fel rhan o'r broses rheoli perfformiad, mae staff yn cyflwyno eu canfyddiadau ymchwil gweithredol neu academaidd i weddill y staff ac mae rhai aelodau o staff wedi elwa o gael ymweld ag ysgolion eraill i rannu arfer dda a chydweithio. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol ag ysgolion y fforwm pob oed cenedlaethol, ac yn ddiweddar wedi cynnal digwyddiad er mwyn rhwydweithio a datblygu arbenigedd yn y sector. At ei gilydd, nid yw'r cynnig dysgu proffesiynol hwn yn ddigon strategol a chydlynus.

Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon ac mae ychydig o athrawon yn elwa o gael cyflwyno i'r darpar athrawon. Mae hyn yn cynnwys athrawon ym meysydd llythrennedd, digidol a dysgu sylfaen.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 27/12/2023